CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
23 Awst 2022, Trwy Zoom
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng A Williams, E Williams, A Wyn, Ieuan Williams, Paul Ellis, Margaret Roberts, Euryn Morris, D Rees (Cyngor Sir), G Owen (Clerc).	
YMDDIHEURIADAU: Cyng Non Dafydd (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng Arfon Wyn. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys y 4 Cynghorydd Sir a benodwyd i'r Cyngor gan Brif Weithredwr y Cyngor Sir i wneud cworwm. Croesawodd hefyd Catrin ac Euros a fynychodd y rhan gyntaf o'r cyfarfod a oedd yn agored i'r cyhoedd i drafod cais cynllunio yn Esgobaeth Bran, Llanbedrgoch. Mae pryder nad yw'r ffordd i'r safle yn addas ar gyfer ceir yn tynnu carafanau. Defnyddir y ffordd gan gerddwyr, beicwyr a cheffylau. Mae Catrin wedi siarad â llawer o'r eiddo cyfagos ac mae pob un o'r un farn. Dywedodd y Cyng Ellis ei fod eisoes wedi "galw'r cais i mewn".
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 19.04.22. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Damweiniau Sgwar Talwrn** – Cytunwyd i ohirio'r mater hwn oherwydd deallir bod Llywodraeth Cymru yn ystyried 20mya mewn ardaloedd adeiledig.
4.2	**Carthffosiaeth Talwrn** - Dywedodd y Cyng E Williams nad oes problemau difrifol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd unrhyw gymeradwyaeth adeiladu yn yr ardal yn y dyfodol yn cael effaith
	Llofnod…….Cadeirydd 27.09.22

4.3	**Mynwent Llanddyfnan (tap)** – Mae'r tap yn gweithio ond nid yn iawn. Bydd y Clerc yn chwilio am blymwr arall
4.4	**Yr Heddlu (mynychu Cyfarfodydd)** – Dywedodd y Cyng Rees fod yna brinder staff a dyna pam nad ydyn nhw'n gallu mynychu cyfarfodydd cyngor cymuned. Cytunwyd bod y Clerc yn gwneud trefniadau gyda'r Arolygwr Ardal i swyddog fynychu os oes gennym fater o bwys
4.5	**Tyfiant Maes y Coed – Bodlondeb –** Mae'n ymddangos bod y gwaith wedi'i wneud, er nad yw'r Clerc wedi cael unrhyw adborth gan y Cyngor Sir. Fodd bynnag, dywedodd y Cyng I Williams y byddai'n codi cwyn gyda'r Adran Briffyrdd oherwydd oedi wrth ymateb i gyfathrebiadau.
4.6	**Llwybrau Cyhoeddus –** Mae Cyng E Williams wedi dechrau cerdded y llwybrau troed. Mae'r Cynghorydd A Williams wedi derbyn cwyn am un llwybr a bydd yn gwneud ymholiadau pellach
4.7	**Gor-yrru Llangwyllog** – Bydd y Clerc yn cyfeirio'r mater at yr Adran Briffyrdd
4.8	**Tyllau yn y Ffordd (Halfway, Talwrn)** – Mae'n ymddangos bod y gwaith wedi'i wneud
4.9	**Lon Ceint** - Bydd y mater hwn yn cael ei ddwyn ymlaen i'r cyfarfod nesaf oherwydd nad oedd yr aelod a gododd y mater yn bresennol.
4.10	**Glasgoed** - Bydd y mater hwn yn cael ei ddwyn ymlaen i'r cyfarfod nesaf oherwydd nad oedd yr aelod a gododd y mater yn bresennol.
4.11	**Cais am palmant, Talwrn** - Trafodwyd cais i'r Cyngor Sir am balmant o Dalwrn i Langefni (yn enwedig ar ôl i'r ysgol gynradd gau). Bydd y Cyng E Williams yn anfon lluniau o feysydd risg at y Clerc.
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	**FPL/2022/186** Esgobaeth Bran, Llanbedrgoch - Cytunodd yr aelodau â'r sylwadau yn eitem 1 o'r cofnodion
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Ceisiadau am gyfethol - Cytunwyd i gyfethol y canlynol: Clive McGregor, Dewi ap Rhobert, Wendy Williams, Paul Ellis
	Llofnod……Cadeirydd 27.09.22

7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Cytunwyd i dderbyn adroddiad yr archwiliwr mewnol. Mae'n adroddiad "glân" heb unrhyw wallau. Cynigwyd gan y Cyng E Williams ac eiliwyd gan y Cyng A Williams
8	**MATERION ERAILL**
	Dim
9	**MATERION AR GYFER YR AGENDA NESAF**
	Dim
	Llofnod…….Cadeirydd 27.09.22